



GWERTHUSIAD OUR BRIGHT FUTURE
Datblygiad sgiliau pobl ifanc ym mhrosiectau
Our Bright Future

© Hill Holt Wood

ERS Cyf. a Collingwood Environmental Planning

Ebrill 2021

Awduron: Fran Haswell-Walls, Kate Vittle, Mair Smith, Anneleise Williams



RHAGARWEINIAD

Our Bright Future

Mae Our Bright Future yn rhaglen gwerth £33m o 31 o brosiectau ledled y DU a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiectau'n cael eu cyflwyno gan sefydliadau ar draws y sectorau amgylcheddol ac ieuencid, wedi'u huno gan y nod cyffredin o rymuso pobl ifanc (11 i 24 oed) i arwain newid amgylcheddol yn y dyfodol. Gan amrywio o ran graddfa, o leol i genedlaethol, mae'r prosiectau'n canolbwyntio ar weithgareddau fel cynnwys pobl ifanc mewn cadwraeth amgylcheddol ymarferol, eu cynnwys mewn hyfforddiant galwedigaethol, eu cefnogi i ddatblygu eu hymgyrchoedd eu hunain ynghylch materion amgylcheddol a'u helpu i ddechrau eu mentrau cynaliadwy eu hunain. Mae'r rhaglen saith mlynedd yn cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolaethau Natur a disgwylir iddi ddod i ben ddiwedd 2022. Yn ystod ei thair blynedd a hanner cyntaf o weithredu, ymgysylltodd Our Bright Future â mwy na 35,000 o bobl ifanc (yn y tymor byr i'r tymor hir) a'u cynnwys mewn gweithgareddau ar draws prosiectau'r portffolio.



Gwerthuso'r rhaglen

Comisiynwyd ERS Cyf., mewn partneriaeth â Collingwood Environmental Planning (CEP), yn 2016 i gynnal gwerthusiad o raglen Our Bright Future. Mae gwerthusiad y rhaglen yn ceisio nodi, dadansoddi ac asesu: effaith gyfunol y 31 o brosiectau ac arfer da, yn ogystal â gwerth ychwanegol swyddogaethau'r rhaglen (h.y. dysgu traws-brosiect).

Dangosodd [Adroddiad Gwerthuso Canol Tymor](#) y rhaglen, a gyhoeddwyd yn 2019, bod cymryd rhan ym mhrosiectau Our Bright Future wedi arwain at amrywiaeth o effeithiau positif i bobl ifanc. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd bod diffyg tystiolaeth wedi'i chasglu'n uniongyrchol gan bobl ifanc i ddilysu a deall graddau'r effeithiau hyn yn well, a sut cawsant eu hwyluso gan y prosiectau. Fel ymateb i'r bwlch hwn mewn tystiolaeth, dewiswyd tair thema gan Banel Gwerthuso¹ Our Bright Future ar gyfer astudiaethau gwerthuso manwl pellach. Roedd hyn yn cynnwys astudiaeth yn edrych ar **ddatblygiad sgiliau** pobl ifanc o ganlyniad i gymryd rhan yn rhaglen Our Bright Future, yn ogystal â dulliau gweithredu prosiectau penodol er mwyn meithrin a datblygu sgiliau'r cyfranogwyr.



¹ Yn adrodd i Grŵp Llywio Our Bright Future, mae'r Panel Gwerthuso'n cynnwys cynrychiolwyr o aelodau o'r consortiwm a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'n sbarduno ymchwil a gwerthuso'r rhaglen.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Nod yr astudiaeth hon oedd edrych ar **ddatblygiad sgiliau pobl ifanc** ar draws portffolio Our Bright Future. Yn fras, roedd yr astudiaeth eisiau creu gwybodaeth am **ba sgiliau ddysgodd y cyfranogwyr** yn ogystal â *sut* cyflawnwyd hyn.

Bwriad yr astudiaeth oedd **bod yn sail i barhau i ddarparu prosiectau a sefydliadau Our Bright Future** ar draws y sectorau ieuencid a'r amgylchedd. Felly, rhagwelir y bydd yn berthnasol i ymarferwyr, llunwyr polisiâu a sefydliadau sy'n ceisio cynnwys pobl ifanc yn yr amgylchedd, a hynny mewn gweithgareddau ymarferol neu seiliedig ar theori.

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn drwy gydol 2020, gyda'r prif ymchwil yn cael ei gynnal rhwng mis Mai a mis Medi 2020. Daw canfyddiadau'r astudiaeth o'r canlynol: adolygiad o lenyddiaeth a thystiolaeth; **cyfweliadau ffôn** manwl gyda sampl o ddeg rheolwr prosiect; adolygiad o **dystiolaeth ategol** a gasglwyd gan yr un prosiectau; a **data e-arolwg** perthnasol o arolwg cyn gyfranogwyr Our Bright Future (a weinyddwyd fel rhan o astudiaeth thematig gyfochrog). Roedd ymweliadau safle yn fwriad i ddechrau, fodd bynnag, gan fod y prif gyfnod ymchwil yn cyd-daro â chyfyngiadau COVID-19, defnyddiwyd dulliau ymchwil o bell.

Mae'r astudiaeth wedi'i bwriadu fel **archwiliad manwl o'r dulliau gweithredu** a roddwyd ar waith er mwyn datblygu sgiliau gan ddetholiad o brosiectau Our Bright Future, a samplwyd yn bwrpasol i adlewyrchu amrywiaeth y dulliau o ddatblygu sgiliau ar draws y portffolio, a chanlyniadau hynny.

Canfyddiadau allweddol



Mae'r cyfranogwyr wedi dysgu amrywiaeth eang o sgiliau a chymwysterau

Cadarnhaodd yr astudiaeth fod cyfranogwyr Our Bright Future wedi datblygu amrywiaeth nodedig o sgiliau, ar draws ystod o feysydd, mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r mathau o alluoedd a ddatblygwyd yn cynnwys sgiliau **amgylcheddol ymarferol** a sgiliau gwyddoniaeth amgylcheddol, **cymwyseddau seiliedig ar waith**, yn ogystal â **sgiliau cymdeithasol ac emosiynol** meddalach. Mae'r dulliau dysgu'n amrywio hefyd ac weithiau'n cyfuno ymgysylltu anffurfiol â rhaglenni neu gynlluniau hyfforddi strwythuredig ac achrededig.

Mae'r **amrywiaeth** o sgiliau a ddatblygwyd a'r dulliau dysgu a ddefnyddiwyd yn tynnu sylw at amrywiaeth prosiectau Our Bright Future. Hefyd, mae'r amrywiaeth yn y prosiectau'n adlewyrchu **hyblygrwydd** y ddarpariaeth i bobl ifanc.

O ran *graddfa'r* canlyniadau, mae adborth gan reolwyr prosiectau'n awgrymu bod rhwng 75% a'r holl bobl ifanc a gwblhaodd raglen weithgarwch wedi datblygu sgiliau.

"Mae datblygu sgiliau (ymarferol a 'meddal') yn rhan annatod o'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau ni. Ochr yn ochr â'r sgiliau ymarferol hyn, mae pobl ifanc wedi dysgu gwaith tîm, gwydnwch, cynllunio a hunanreolaeth." - Ymgynghorai Rheolwr Prosiect

Tynnodd rheolwyr prosiectau sylw at y ffaith bod **sgiliau rhyngpersonol a chymdeithasol** yn cael eu datblygu gan gyfranogwyr i ryw raddau ar draws pob math o weithgarwch. Ymhlith y ffactorau a gyfrannodd yn gadarnhaol at *amlygrwydd* ac *effeithiolrwydd* datblygu sgiliau o'r math yma roedd: defnydd aml o **weithgareddau grŵp**; a mwy o **ddyfnder o ran ymgysylltu** (naill ai'n para'n hirach neu'n ymgysylltu dwys).

Nodwyd y gall canolbwyntio ar y mathau hyn o sgiliau fod yn **arbennig o effeithiol** i unigolion o gefndiroedd difreintiedig, y rhai ag anghenion cymhleth, a/neu'r rhai â nodwedd a allai effeithio ar eu gallu i ymgysylltu'n gymdeithasol. Mae'n ymddangos bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y lleoliadau nad ydynt yn ystafell ddosbarth yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol.

Mae'r cyfranogwyr wedi ennill **amrywiaeth eang o gymwysterau**, gan gynnwys dyfarniadau achrededig (yn allanol ac yn fewnol), heb eu hachredu, a phwrpasol, a dyfarniadau a gydnabyddir yn genedlaethol, yn rhoi sylw i sgiliau ymarferol a meddal. Er bod amrywiaeth o ddulliau'n cael eu

defnyddio, mae'n ymddangos mai un canlyniad cyffredin yw'r **ymdeimlad o gyflawni** a deimlwyd gan bobl ifanc wrth ennill dyfarniad.

"Mae'n werthfawr i bobl ifanc ennill dyfarniad swyddogol ar y diwedd. (Yn benodol,) pobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol ac sy'n gweithio i gael tystysgrif – maen nhw'n cyffroi'n fawr, ac mae'n rhoi hwb i hyder a hunan-barch." – Ymatebydd Rheolwr Prosiect

Dywedodd rheolwyr y prosiectau na fyddai cyfleoedd cyfartal o **hyd cyfartal** ac ar **lefel mor bwrpasol** wedi bod ar gael heb Our Bright Future.



Mae amrywiaeth o ddulliau gweithredu / modelau / lleoliadau ar gyfer cyflwyno sgiliau wedi profi'n effeithiol

Mae'r prosiectau'n dangos amrywiaeth eang o ddulliau o ddarparu sgiliau ac mae'r cyfranogwyr wedi cael cynnig ystod eang o opsiynau ar gyfer ymgysylltu â darpariaeth y prosiectau. Ar draws Our Bright Future **nid oes dull nodweddiadol** o ddatblygu sgiliau na "siwrnai ymgysylltu â chyfranogwyr" gyffredin.

Mae'r amrywiaeth lwyr o ddarpariaeth yn tanlinellu nad oes un llwybr unigol gorau i feithrin sgiliau; yn hytrach, mae amrywiaeth o ddulliau'n effeithiol i ddatblygu sgiliau gwahanol, gyda grwpiau amrywiol o bobl ifanc, mewn gwahanol lleoliadau. Yn hytrach na datblygu'r model "cywir", mae llwyddiant yn dibynnu ar **addasu a theilwra'r ddarpariaeth i anghenion y cyfranogwyr**.

"Mae'r dull o ddatblygu sgiliau (yn) wedi'i deilwra i set sgiliau'r grŵp, eu hanghenion dysgu, a pha lefel maent arni ar hyn o bryd." – Ymgynghorai Rheolwr Prosiect

Mae'r dull o ddatblygu sgiliau a gaiff ei fabwysiadu wedi'i **gysylltu'n glir ag ymgysylltu**, gyda phobl ifanc â **sawl cymhelliant** dros ymwneud â phrosiectau Our Bright Future. Weithiau, gall yr ymgysylltu gael ei sbarduno gan gyfleoedd datblygu sgiliau a nod clir yn y pen draw, sef achrediad; fodd bynnag, weithiau mae'r sgiliau'n agwedd atodol (ond bwriadol) tra mae'r ffocws, er enghraifft, ar weithgareddau awyr agored a/neu gymdeithasol.

Yn aml mae **pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig** yn ymuno â phrosiectau gyda lefelau hyder isel, sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu sgiliau. Teimlwyd bod cefnogaeth ddwys i fagu hyder, meithrin ymdeimlad o gyflawni a chael gwared ar rwystrau ariannol (e.e., lleoliadau hyfforddi gyda thâl) yn effeithiol.

Gall **pobl ifanc agored i niwed sy'n profi problemau tebyg** i'w gilydd elwa o fod mewn grŵp priodol o gyfoedion. Dywedwyd bod hyn yn cynorthwyo gyda datblygu sgiliau gan eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus.

Bu i amrywiaeth o grwpiau elwa'n "enfawr" o weithgareddau ymarferol a gwaith cadwraeth, gan gynnwys pobl ifanc ag **anghenion addysgol arbennig (AAA)**.

Yn gyffredinol, mae **pobl ifanc oedran ysgol ag anghenion cymhleth** yn elwa o ddarpariaeth hyblyg, benagored. Pwysleisiodd rheolwyr y prosiectau, er enghraifft, bwysigrwydd lleoliad heb fod yn ysgol, yn ogystal â'r angen am ddewis, meithrin hyder, a datblygu sgiliau meddal a/neu ymarferol.

Roedd yn ymddangos bod **pobl ifanc mewn oedran cyflogaeth** yn fwy tebygol o gael eu cymell gan raglen strwythuredig oedd yn cynnwys achrediad. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r rhwystr hysbys o ran cael mynediad i'r sector amgylcheddol a sicrhau cyfleoedd lefel mynediad.

Roedd y ffactorau eraill oedd yn cefnogi canlyniadau sgiliau'n cynnwys: lleoliad "heb fod yn ystafell ddosbarth"; **cefnogaeth neu hyfforddiant cyson** gan staff y prosiectau / mentor; cymhwysedd y staff i greu amgylchedd cefnogol; a chymarebau staff i gyfranogwyr uchel. Yn benodol, ni ddylid tanbrizio

rôl staff prosiectau (a'r arbenigeddau niferus yr oedd disgwyl iddynt eu meistrolï yn aml i gyflawni canlyniadau effeithiol).



Cyflawnwyd amrywiaeth o ganlyniadau gan bobl ifanc o ganlyniad i ddatblygu sgiliau

Y canlyniad a nodwyd fwyaf oedd **magu hyder**. Mae'n ymddangos bod hyn yn dechrau *ochr yn ochr â* datblygu sgiliau, ac nid dim ond o *ganlyniad* i'r sgiliau newydd eu hunain. O ran graddfa, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a gymeroedd ran wedi magu hyder i ryw raddau.

"Oherwydd ein bod yn dewis y bobl ifanc mwyaf agored i niwed, yr hwb hwnnw mewn hyder cyffredinol sy'n eu helpu mewn sawl agwedd ar fywyd. Nid dim ond yr hyder i wneud cwrs cadwraeth, ond hyder i wneud rhywbeth arall. Maen nhw'n gallu anelu at wneud mwy gyda'u bywydau. Mae'r hwb hwnnw i hyder drwy'r prosiect yn rhoi sgiliau." – Ymatebydd Rheolwr Prosiect

Nid yw **cynnydd i gyflogaeth** yn nod canolog i'r holl brosiectau cyfranogol, ac felly nid yw'n cael ei dracio'n gyson. Mae graddfa, cyfran ac i ba raddau mae'r canlyniad hwn wedi cael ei gyflawni wedi amrywio'n sylweddol o brosiect i brosiect. Mae'r un mor anodd mesur yn fanwl gywir y **cynnydd i astudio pellach**. Fodd bynnag, ceir nifer o enghreifftiau o gynnydd i astudio pellach, a llawer ohonynt mewn pynciau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd neu'n mynd law yn llaw â hynny, fel ffermio, gofal anifeiliaid, neu gadwraeth.

Er bod metrigau cynnydd i gyflogaeth yn broblemus, mae cyfraniad Our Bright Future at **gyflogadwyedd** pobl ifanc yn llawer cliriach. Mae "cyflogadwyedd" yn cynnwys y priodoleddau sy'n cefnogi parodrwydd am waith, er enghraifft: bod yn drefnus, bod â *thystiolaeth* o allu a *phrofiad* o ddefnydd ymarferol o wybodaeth. Er bod yr adolygiad ehangach o lenyddiaeth wedi datgelu bod cyfraniad y rhaglen at gyflogadwyedd yn anodd ei ddangos fel rheol, roedd prosiectau Our Bright Future yn gallu darparu tystiolaeth gref drwy eirida gan rieni, gofalwyr ac athrawon am eu gwerth yn y maes hwn.

Roedd y **canlyniadau ehangach** eraill o ganlyniad i ddatblygu sgiliau yn cynnwys: gwell **dyheadau a hunan-barch**; **manteision cymdeithasol**; gwell **iechyd a lles**; **defnydd o sgiliau** mewn lleoliadau amrywiol (gan gynnwys gwaith ac addysg); a mwy o **ymwybyddiaeth amgylcheddol** a gwerthfawrogiad.

Roedd y ffactorau llwyddiant craidd ar gyfer darparu datblygiad sgiliau a chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys y canlynol:

- bod â staff profiadol i annog, cynnwys a chefnogi pobl ifanc;
- cymhareb staff i gyfranogwyr uchel;
- trefniant cyfnewid prosiectau sy'n ehangu'r cyfleoedd sgiliau (perthnasol mewn rhai achosion);
- cefnogaeth am gyfnod hirach;
- hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion a dewisiadau cyfranogwyr; a
- dulliau gweithredu sy'n cael gwared ar rwystrau sy'n atal cyfranogiad.



Edrychwyd ar amrywiaeth o fanteision dysgu awyr agored

Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a oedd yn rhan o'r astudiaeth hon o'r farn bod darparu gweithgarwch awyr agored yn greiddiol i'w gwaith. Roedd un prosiect yn cynnig elfennau mewn ystafell ddosbarth *hefyd*, tra bod un arall yn cael disgyblion ysgol i ymwneud â gweithgareddau ystafell ddosbarth yn bennaf.

Roedd darpariaeth yn yr awyr agored yn gyfrwng a ffafriwyd yn sicr i brosiectau ddarparu sgiliau, ac yn allweddol ar gyfer y **defnydd ymarferol** o lawer o sgiliau. Hefyd, nodwyd rhai cyfyngiadau a rhywstrau, fel elfennau ymarferol a'r tywydd, a dewisiadau'r cyfranogwyr.

Mae llawer o'r **sgiliau amgylcheddol a chadwraeth ymarferol** a ddatblygwyd drwy Our Bright Future yn dibynnu ar ddull "dysgu drwy wneud" cyfranogol o weithio ac felly maent angen gweithredu y tu

allan i ystafell ddosbarth. Mae tystiolaeth o ddysgu **sgiliau meddalach** ochr yn ochr â sgiliau ymarferol; fodd bynnag, mae'n llai clir a yw hyn oherwydd yr amgylchedd awyr agored neu ffactorau eraill, fel fformat gwaith grŵp. Fodd bynnag, mae cynnwys tasgau ymarferol yn cymhell cyfranogwyr ac yn meithrin eu hunan-barch ac ymdeimlad o gyflawni, oherwydd y cynnydd gweladwy, ar unwaith e.e. o strimio darn o dir.

"Rydych chi'n strimio perllan ac ar y diwedd rydych chi'n gweld perllan wedi'i strimio. Mae canlyniad clir rhwng ymdrech a chanlyniad." – Ymgynghorai Rheolwr Prosiect

"Y rhai sy'n cymryd rhan mewn prosiectau tyfu – dyma'r peth mwyaf maen nhw'n gwneud sylwadau amdano. Dyma'r peth mwyaf gwerthfawr maen nhw'n ei ddysgu; gwneud rhywbeth corfforol a datblygu, a gweld ffrwyth eu llafur yn araf. Does dim byd yn cymharu." – Ymgynghorai Rheolwr Prosiect

Ymhlith y canlyniadau ehangach a gofnodwyd mae **manteision iechyd meddwl** o fod y tu allan. Er enghraifft, mae pobl ifanc wedi dweud eu bod yn teimlo'n "ffres" ac yn "dawel". Hefyd, ceir tystiolaeth o les a manteision ymddygiadol; er enghraifft, llai o byliau o rwystredigaeth lwyr neu lai o gosbau. Ond ochr arall y geiniog yw bod yr amgylchedd naturiol yn anghyfarwydd ac yn anghyfforddus. I eraill, gall y diffyg cyfyngiadau neu reolau ymddangosiadol achosi problemau ymddygiad.

Yn gyffredinol, roedd gwahanol safbwyntiau ynghylch a oedd gwell cyflawniad sgiliau'n **ganlyniad uniongyrchol** lleoliad awyr agored, neu ddim ond yr amgylchedd **heb fod yn ystafell ddosbarth neu gartref**. Er hynny, mae'r amgylchedd nodedig **wahanol a diogel** yn ymddangos yn fuddiol.

Ochr yn ochr â sgiliau, roedd canlyniadau ehangach eraill ymgysylltu â natur / bod mewn lleoliadau awyr agored yn cynnwys: mwy o werthfawrogiad o natur; mwynhau mwy ar natur a meithrin sgiliau a hyder i fynd allan i'r awyr agored; dyhead cynyddol i ymgysylltu â natur yn amlach; profiadau newydd gwerthfawr; a gwella sgiliau'r athrawon a'r addysgwyr a gymerodd ran mewn sesiynau.

Casgliadau cyffredinol

"Mewn 2 flynedd a ½, mae wedi llwyddo i fynd o ddim cymwysterau i gael swydd ei freuddwydion. Diolch i chi am roi amser a mynd i drafferth i'n cyfeirio ni i'r cyfeiriad cywir ac am yr holl gyngor rydych chi wedi bod yn ddigon hael i'w roi. Dydw i ddim yn siŵr a fydden ni wedi cyrraedd mor bell â hyn hebdo. Mae ei fywyd a'i ddisgwyliadau wedi trawsnewid i fod yn rhywbeth mor bositif, ar adeg pan oedd wir yn credu na fyddai byth yn cael swydd." Tystiolaeth ategol gan riant cyfranogwr.

Mae prosiectau Our Bright Future wedi rhoi ystod eang o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad i bobl ifanc. Mae'r sgiliau hyn yn aml wedi eu cefnogi i gymryd y cam nesaf yn eu bywydau, boed i hyfforddiant pellach, gwirfoddoli, neu gyflogaeth. Mae'r amrywiaeth eang o sgiliau a ddatblygwyd, y gwahanol ddulliau achredu ac asesu, a'r dulliau cyflwyno amrywiol yn golygu ei bod yn anodd iawn cyffredinoli ynglŷn â'r hyn sydd fwyaf / lleiaf effeithiol ar draws y rhaglen. Fodd bynnag, adroddir bod staff prosiect medrus, sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn cymarebau staff i gyfranogwyr uchel, a'r amgylchedd(au) dysgu gwahanol yn greiddiol i ennill sgiliau, gwella lles, a thwf personol y cyfranogwyr.

Roedd natur amlochrog y cymwyseddau a oedd yn gwella sgiliau, gan gynnwys sgiliau cymdeithasol, emosiynol a phersonol; sgiliau ymarferol; sgiliau proffesiynol/gweithle; yn ogystal â gwybodaeth ac ymwybyddiaeth amgylcheddol, yn golygu bod cyflawniadau pob person ifanc yn unigryw ac mae'n well eu hystyried yn gyfannol. Er ei bod yn anodd bod yn fanwl gywir o ran graddfa, ceir nifer o straeon effeithiol am siwrneiau pobl ifanc gydag Our Bright Future. Yn bwysig, tynnodd y dystiolaeth a ddarparwyd gan rieni, gofalwyr ac athrawon sylw at y ffaith na fyddai pobl ifanc wedi gallu manteisio ar y profiadau hyn yn absenoldeb y rhaglen.

"Rydw i wir yn credu bod y <prosiect> wedi bod yn brofiad sydd wedi newid bywyd i > y cyfranogwr<. Rydw i'n teimlo y bydd y pethau mae wedi'u dysgu a'u profi yn aros gydag ef pan fydd yn oedolyn." Tystiolaeth ategol gan riant